Arddangosfa

Oriel Kyffin Williams

Kyffin Williams: Gwaith Anweledig

Gorffennaf 24 – Ionawr 23 , 2011

Mae Oriel Ynys Môn yn falch o gael cyflwyno ei harddangosfa ddiweddar o waith Syr Kyffin Williams – 'Gwaith Anweledig.'

Bydd yr arddangosfa a leolir yn Oriel Kyffin Williams, yn cychwyn ar Gorffennaf 24 hyd at Ionawr 23, 2011. Caiff ei hagor yn swyddogol gan Ei Anrhydedd y Barnwr Michael Farmer C.F. , D.R. ar nos Wener Gorffennaf 23, 2010.

Bu Oriel Ynys Môn yn ffodus iawn o gael Syr Kyffin Williams fel hyrwyddwr i'r celfyddydau ym Môn a bu'n gefnogwr brwd a gweithgar o waith yr Oriel ers ei hadeiladu yn 1991.

Mae'r arddangosfa hon yn cynnwys rhai o'r 400 o weithiau celf a roddodd Kyffin Williams i Oriel Ynys Môn dros y blynyddoedd ynghyd â gweithiau o gasgliadau preifat ledled Cymru a thu hwnt.

Mae'r gwaith sy'n cael ei arddangos yn waith ar bapur ac ar gynfas ac yn amrywio mewn pwnc o dirluniau a môrluniau i bortreadau.

"Mae hwn yn gyfle i weld gwaith o gasgliad yr Oriel ac hefyd yn arbennig gwaith o gasgliadau preifat sydd heb erioed wedi cael eu gweld gyda'i gilydd o'r blaen fel rhan o arddangosfa", meddai Pat West – Prif Swyddog – Amgueddfeydd, Diwylliant ac Archifau, Cyngor Sir Ynys Môn.

Dywedodd Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden, y Cyng Bob Parry OBE, "***Mae'n fraint i Oriel Ynys Môn gael cynnal arddangosfa mor unigryw – rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi benthyg gwaith Kyffin Williams – hebddynt hwy ni fuasai arddangosfa o'r fath wedi bod yn bosib".***

Oriau Agor: Dyddiol 10.30 yb – 5.00 yh
Mynediad am ddim

Oriel Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TQ

Ffôn: 01248 724444
www.kyffinwilliams.info
www.croesomon.co.uk
DIWEDD

Gwybodaeth Ychwanegol:
Llinos Jones Parry
Swyddog Gweithgareddau a Marchnata
Oriel Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TQ

Ffôn: 01248 752027 / 01248 724444